



Cymru  
National Day Nurseries Association

# Factsheet



## Niwroamrywiaeth yn y Blynyddoedd Cynnar

Cwricwlwm i Gymru

# Niwroamrywiaeth yn y Blynyddoedd Cynnar

Rydym i gyd yn unigryw, dyna sy'n ein gwneud fel bodau dynol, mor arbennig. Mae ganddom gryfderau a heriau, ac mae ein ymennydd yn gallu gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Dylai hunaniaeth pawb gael ei ddeall a'i groesawu fel rhan o gymdeithas niwroamrywiol.

Fel oedolion sy'n galluogi, eich cyfrifoldeb chi yw gweithredu ymarfer cynhwysol yn eich lleoliad, sy'n sicrhau bod plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynrychioli, gyda theimlad o berthyn a chyfle cyfartal i ffynnu a datblygu.

*"Mae arfer cynhwysol yn parchu ac yn ymateb i brofiadau unigryw plant a'u teuluoedd, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael cymorth priodol i gymryd rhan lawn mewn dysgu."*

*Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir, Llywodraeth Cymru*

## Beth yw niwroamrywiaeth?

Wrth ystyried y cwestiwn yma, beth am rannu'r gair- mae'r gair 'niwro' yn cyfeirio at swyddogaeth niwrolegol, sydd yn golygu'r ymennydd, ac 'amrywiaeth' yn cyfeirio at fod yn wahanol neu yn amrywiol, felly amrywiaeth mewn rhywbeth. Felly mae 'niwroamrywiaeth' yn gallu cael ei ddisgrifio fel 'amrywiaeth ymennyddol'

Tra bod gan ein ymennedd rhai rhinweddau cyson, mae pob ymennydd yn wahanol ac unigryw. Mae babanod yn cael eu geni gyda'r holl gelloedd ymennydd (newronau) a fydd ganddynt gydol eu hoes. Y cysylltiadau (synapsau) rhwng y celloedd yma sy'n gwneud i'r ymennydd ddatblygu. O'r eiliad maent yn cael eu geni, mae ymennydd babanod yn dechrau ffurfio biliynau o gysylltiadau a llwybrau rhwng y newronau. Mae'r datblygiad yma yn gallu cael ei ddylanwadu gan amrywiaeth o bethau gan gynnwys geneteg a ffactorau amgylcheddol allanol.

**Niwro-nodweddiadol** dyma'r mwyafrif mewn unrhyw grŵp fel arfer. Mae'r ffordd maent yn prosesu gwybodaeth yn nodweddiadol.

**Niwroamrywiol** mae'r pobl yma yn y lleiafrif mewn unrhyw grŵp. Mae'r modd maent yn prosesu gwybodaeth yn *annodweddiadol* ac yn *dargyfeirio* o'r hyn sy'n nodweddiadol yn y grŵp.

Er bod cyfeiriad at bobl niwroamrywiaeth fel lleiafrif, maent yn cynrychioli cymaint â 1 mewn 5 o bobl.

Mae niwroamrywiaeth yn cyfeirio at yr amrywiadau niwrolegol unigryw yn y meddwl dynol (Walker, 2014). Mae niwroamrywiaeth yn cofleidio'r ffaith nad yw pob ymennydd yn dilyn yr un llwybr datblygiadol. Pan fyddwn yn siarad am niwroamrywiaeth, rydym yn cydnabod bod gan bob un ohonom wahanol ffyrdd o feddwl a theimlo, a bod ein ymennydd yn gweithio'n wahanol i'n gilydd. Daeth y term 'niwroamrywiaeth' yn boblogaidd yn y 1990au. Mae niwroamrywiaeth yn aml yn gysylltiedig ag awtistiaeth, ond mae'n cynnwys ystod eang o 'niwroteipiau' (mathau o ymennydd). Bydd pob lleoliad yn niwroamrywiol oherwydd eu bod

yn cynnwys grŵp o blant a all gynnwys y rhai sy'n *niwro-nodweddiadol* a'r rhai sy'n *niwroamrywiol* yn y ffyrdd y maent yn prosesu gwybodaeth.

## Beth yw'r ymbarel niwroamrywiaeth?

Mae'r ymbarel niwroamrywiaeth yn derm a ddefnyddir i gynnwys yr holl amrediad 'niwro teip'. Er enghraifft:

- Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)
- Awtistiaeth
- Gwahaniaeth iaith datblygiadol
- Dyscalcwlia
- Dyslecsia
- Dyspracsia
- Epilepsi
- Anhwylder obsesiynol cymhellow (OCD)
- Gwahaniaethau prosesu synhwyraidd
- Syndrom Tourette.

*(O.N. nid yw hwn yn rhestr cyflawn)*

## Sut mae niwroamrywiaeth yn berthnasol i blant yn y blynyddoedd cynnar?

Mae deall niwroamrywiaeth yn galluogi oedolion sy'n galluogi i ystyried y plant rheiny lle nad yw eu datblygiad yn symud i'r cyfeiriad disgwylidig ar y cychwyn. Mae'n hynod o bwysig i nodi bod tynnu sylw at blentyn fel un ag 'oediad' neu "ddim yn datblygu'n unol â'u hoedran neu gyfoedion" yn gallu cael effaith negyddol ar lesiant a datblygiad plentyn. Mae niwroamrywiaeth yn y blynyddoedd cynnar yn cydnabod bydd rhai plant yn wahanol, a dim llai na hynny.

## Pam ydym ni angen ymarfer sy'n wybodus am niwroamrywiaeth yn y blynyddoedd cynnar?

Rydym yn byw mewn cymdeithas sy'n ffafrio ymennydd nodweddiadol a cyrff heb anabledd. Cyfeirir at hyn fel ablaeth. Oherwydd hyn, mae pobl niwroamrywiol yn gallu teimlo nad ydynt yn perthyn. Fel oedolion sy'n galluogi, mae'n bwysig ystyried ein ymarfer ein hunain a darpariaeth drwy lygad ablaeth, i adlewyrchu ar sut gallwch gefnogi plant unigol yn well. Fel byddwch yn cychwyn ymchwilio y cysyniad yma, efallai byddwch yn canfod bod llawer o adnoddau a gwybodaeth am y blynyddoedd cynnar yn edrych ar niwroamrywiaeth drwy lygad diffygiol ac felly yn hybu ablaeth.

Mae ymarfer sy'n wybodus am niwroamrywiaeth yn eich annog i adnabod plant sydd angen cefnogaeth, tra'n amharu ar ymarfer ablaeth a gwella profiadau blynyddoedd cynnar i blant niwroamrywiol. Mae'n bwysig cydnabod bod ymarferwyr weithiau yn gallu dangos ymddygiadau ablaeth oherwydd dyna sut mae pethau wastad wedi bod e.e. rhaglenni chwarae i annog plant i ymddwyn yn yn fwy 'normal'. Fel mae'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o niwroamrywiaeth yn dabtlygu, gallwch adnabod addysgeg ac ymarfer sy'n cefnogi anghenion unigol plant ac yn hybu dabtlygiad unigryw a chyfannol pob plentyn.

**“Os rydym yn parhau i ganolbwyntio gormod ar gerrig milltir datblygiadol, rydym yn colli golwg ar allu unigryw, creadigol ac amrywiol pob plentyn”  
(Sakr et al 2018)**

## **Sut allwn chi gefnogi rhieni a theuluoedd plant niwroamrywiol?**

Fel y soniwyd yn flaenorol, yn aml gellir ystyried niwroamrywiaeth fel oediad, neu bryder neu ‘rybudd coch’ a gallai hyn achosi i riant/gofalwr fod yn amharod i ymgysylltu ac efallai y byddant yn cael trafferth deall anghenion eu plentyn.

Fel ymarferwr blynyddoedd cynnar, mae gennych gyfle unigryw o fod yn bresennol ar gyfer y camau cyntaf o adnabod, asesu a diagnosis, a dyma lle gallwch gyflwyno ymarfer sy’n gadarnhaol am niwroamrywiaeth i sicrhau bod niwrodeip plentyn yn cael ei ddeall ac nad yw’n cael ei ystyried yn negyddol.

## **Adnabod plant niwroamrywiol**

Bydd plant yn eich lleoliad yn newid yn sylweddol rhwng genedigaeth a 5 oed a bydd pob un yn gwneud hynny mewn ffordd unigol – felly sut ydych chi i fod i adnabod plentyn niwroamrywiol? Gall fod yn anodd ynysu ymddygiadau cyffredin oddi wrth y rhai a all fod yn pwyntio at ymddygiad niwrolegol-nodweddiadol. Er enghraifft, gallai pyliau o ymddygiadau corfforol, problemau ymlyniad a heriau cyfathrebu fod yn ddyslecsia neu'n anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.

O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol ADY 2021, mae’n datgan yn glir nad rôl yr ymarferydd blynyddoedd cynnar yw gwneud diagnosis o blentyn yn niwroamrywiol. Fodd bynnag, gall eich sgiliau fel arbenigwyr blynyddoedd cynnar a’ch gwybodaeth am y plentyn unigol fod yn ddefnyddiol wrth arsylwi a chofnodi ymddygiadau penodol a allai ddarparu gwybodaeth werthfawr i’r awdurdod lleol fel rhan o’r broses ddiagnostig.

## **Defnyddio arsylwi effeithiol i gefnogi plant niwroamrywiol**

Y peth pwysicaf i’w gofio wrth arsylwi ar blant a allai fod yn niwroamrywiol, yw eu gweld fel unigolion unigryw y gallai fod angen offer ychwanegol neu gymorth oedolyn arnynt er mwyn ffynnu nid fel ‘tangyflawnwyr’ neu sydd yn ‘oedi’. Mae arsylwi pob plentyn yn effeithiol yn ein galluogi i gofnodi’r hyn rydym yn sylwi arno, dadansoddi’r hyn a welwn ac a glywn, ac i ymateb mewn ffyrdd a fydd yn helpu pob plentyn i wneud cynnydd a datblygu.

Materion i’w hystyried wrth gwblhau arsylwadau:

- Oes sbardun posibl sy’n achosi trallod emosiynol?
- Osgoi idiomau neu godi cywilydd.
- Ystyried sut mae plant yn ymwneud â’r amgylchedd, oedolion a phlant eraill
- Ydi plant yn amlwg yn hoffi pethau neu yn osgoi pethau penodol?
- Peidio rhagdybio

- Pa mor hir mae'n gymryd i gysuro plentyn wedi trallod emosiynol? Beth sy'n eu cysuro?
- Arsylwi ar blant drwy gydol y dydd, tu mewn a thu allan
- Ail fframio ymddygiad 'heriol' fel angen nad yw'n cael ei ddiwallu; gall plant niwroamrywiol gael trafferth yn amlygu beth yn union yw eu angenion felly bydd rhaid bod yn amyneddgar
- Wrth ddadansoddi eich arsylwadau, oes unrhyw batrwm yn dod i'r amlwg?

## Syniadau ymarferol i gefnogi plant niwroamrywiol

Gall ymgynghori â Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol ( ALNO BC) ac ymarferwyr iechyd eraill, fel therapyddion galwedigaethol neu therapyddion lleferydd ac iaith, ddarparu cyngor, arweiniad, adnoddau a chyfleoedd hyfforddi gwerthfawr.

Mae llawer o addasiadau syml y gallwch eu rhoi ar waith i wella cynhwysiant yn eich lleoliad. Gall cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol i ddyfnhau eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth eich cefnogi i fyfyrion ar eich ymarfer presennol, hunanwerthuso a gwneud newidiadau cadarnhaol. Daliwch ati i ddsygu a chofiwch ddathlu pan fydd pethau'n mynd yn dda.

Rhai syniadau i hybu cynhwysiant plant niwroamrywiol:

- Ystyried lefelau sŵn o fewn y lleoliad ac adolygu effeithiolrwydd ardaloedd tawel
- Rhoi ar waith ymyrraethau syml ac adolygu eu heffaith E.e. ardaloedd sensori/amser sensori/staelloedd sensori, technoleg sy'n cynorthwyo, amserlen weledol ac adnoddau cyfathrebu
- Defnyddio iaith a brawddegau syml: gall dealltwriaeth plentyn o iaith fod yn llythrennol a bydd angen mwy o amser arnynt i feddwl
- Defnyddio straeon cymdeithasol i esbonio sefyllfaoedd lle nad oes 'bai'
- Defnyddio atgoffwyr a nodiadau gweledol i gefnogi ymarferwyr gydag arfer effeithiol a chaniatáu iddynt rannu syniadau gyda rhieni a theuluoedd.

Mae plant yn cael eu dylanwadu gan eu hamgylchedd a'r oedolion o'u hamgylch ac maent yn dysgu gan bopeth maent yn ei weld, ei glywed a'i wneud. Mae gan oedolion sy'n galluogi gyfrifoldeb i ddylanwadu ar ddatblygiad plant mewn modd cadarnhaol drwy greu amgylchedd cynhwysol a hygrych o fewn eu lleoliadau, un sy'n gwerthfawrogi a dathlu pawb.

Dylai amgylchedd effeithiol a chynhwysol:

- Fod wedi ei drefnu'n dda i sicrhau hygrychedd i bawb
- Cynnwys cynrychiolaeth amrywiol o fewn adnoddau, delweddau a thestunau (o ran rhywedd, gallu, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, ayb.)
- Wneud addasiadau addas i ddiddymu unrhywbeth sy'n atal cyfranogiad
- Cynnig adnoddau sydd ddim yn benodol ar gyfer rhywedd ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth.

## Cefnogaeth bellach ac adnoddau NDNA

- NDNA An Afternoon with Kerry Murphy: Recordiad webinar yn cadarnhau ymarfer Niwroamrywiaeth (Saesneg): <https://bit.ly/NDNAAWKM>
- Dull Dim Drws Anghywir i Niwroamrywiaeth: Llyfr o Brofiadau, Comisiynydd Plant Cymru: [Dull Dim Drws Anghywir i Niwroamrywiaeth - Comisiynydd Plant Cymru](#) (cyhoeddwyd 22 Mawrth 2023)
- Adnoddau blynyddoedd cynnar Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol - <https://neurodivergencewales.org/cy/addysg/rwyn-gweithio-mewn-lleoliad-blynyddoedd-cynnar/>



National Day Nurseries Association

# Taflen ffeithiau

**\*Meddwl mwy disglair  
ar gyfer y blynyddoedd cynnar**

Caiff ein tafleni ffeithiau eu hysgrifennu gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'n tafleni ffeithiau am ddim ar gyfer ein haelodau.

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant ar draws y DU. Rydym yn elusen sy'n credu mewn safon a chynhaliadwyedd felly rydym yn gosod busnesau ein haelodau wrth galon ein un ni.

Ni yw llais y sector meithrinfeydd a'i 21,000 o aelodau, ac yn ran o fywydau dros filiwn o blant ifanc a'u teuluoedd. Rydym yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi meithrinfeydd a'r 250,000 o bobl sy'n gweithio ynddynt i ddarparu dysgu cynnar a gofal plant o safon rhyngwladol.

Gwelwch yr ystod lawn o dafleni ffeithiau NDNA ar [www.ndna.org.uk/factsheets](http://www.ndna.org.uk/factsheets)

Mae'r wybodaeth ddarparwyd yn y daflen ffeithiau yma at ddefnydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn unig. Ysgrifenwyd y daflen gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ond ni ddylai gael ei ddefnyddio fel allddodyn i gyngor proffesiynol. Mae NDNA wedi ymdrechu i sicrhau cywirdeb y wybodaeth gyflwynwyd yn y daflen ffeithiau. Nid yw NDNA yn atebol yn gyfreithiol nac yn gyfrifol am eich dehongliad nac eich defnydd o'r wybodaeth a ddarperir

## NDNA Cymru

3 Ty Connaught, Parc Busnes Glan Yr Afon, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB  
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: [wales@ndna.org.uk](mailto:wales@ndna.org.uk)